



**Drwy e-bost yn unig :**

[fuelpovertyandenergyefficiency@wales.gsi.gov.uk](mailto:fuelpovertyandenergyefficiency@wales.gsi.gov.uk)

Annwyl Syr / Madam

## **Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni ar gyfer Cymru.**

Rydym yn falch o fod wedi cael y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ar Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni ar gyfer Cymru. Rydym yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar effeithlonrwydd ynni a'r gydnabyddiaeth bod mynd i'r afael ag effeithlonrwydd ynni yn flaenoriaeth wrth sicrhau manteision cymdeithasol-economaidd ac wrth leihau ein gollyngiadau nwyon tŷ gwydr. Rydym yn nodi cwmpas eang y strategaeth ac yn croesawu'r gyfres gynhwysfawr o feysydd gweithredu ymarferol a gynigir.

Ceir isod ein hymatebion i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad.

### **C1) Ydych chi'n cytuno â'r meysydd gweithredu a nodwyd ym mhennod 5.1: Goresgyn Rhwystrau?**

Ydyn

*Yn Maes Gweithredu 1.13 - Gweithio gyda busnesau mawr er mwyn defnyddio ynni'n fwy effeithlon* rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth o bwysigrwydd sicrhau arbedion effeithlonrwydd mewn busnesau mwy a diwydiant. Gall System Masnachu Allyriadau'r UE, Cynllun Effeithlonrwydd Ynni CRC a'r Cynllun Cyfleoedd Arbed Ynni helpu i gyflawni ymrwymadau effeithlonrwydd ynni Cymru drwy greu cyfundrefnau ariannol ac enw da sydd â'r gallu i gyflawni arbedion ynni sylweddol a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o ganlyniad i weithgarwch diwydiannol a chynhyrchu ynni yn sylweddol.

Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am reoleiddio'r cynlluniau hyn yng Nghymru sydd, ar y cyd, yn dal tua 50% o gyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru. Er enghraifft, mae'r System Masnachu Allyriadau'r UE yn dal 20,000 o dunelli o allyriadau CO<sub>2</sub> bob dydd o Orsaf Bŵer Aberddawan a Gwaith dur Port Talbot.

Ein prif rôl yw sicrhau bod y sefydliadau sy'n cymryd rhan yn cydymffurfio â'r tri chynllun hyn yng Nghymru. Rydym yn ymgymryd â rôl orfodi weithredol i sicrhau lefelau cydymffurfiaeth uchel, a thrwy hynny, rydym yn cynyddu effeithiolrwydd y



cynlluniau, drwy gynnig cyngor, canllawiau a chymorth i sefydliadau sy'n cymryd rhan. Gwnaethom weithio gyda'r UE, Llywodraeth Cymru, Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, Asiantaeth yr Amgylchedd a rheoleiddwyr eraill y DU i drosi'r Gyfarwyddeb Effeithlonrwydd Ynni a System Masnachu Allyriadau'r UE yn gyfraith ddomestig, a hefyd rydym wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu Gorchymyn Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon 2013. Drwy gydweithredu'n barhaus â'r cyrff hyn byddwn yn parhau i ymgymryd â rôl weithredol i wella effeithiolrwydd cynlluniau a'r fframweithiau polisi ategol. Nod ein cyfraniadau o hyd yw sicrhau bod cynlluniau yng Nghymru yn effeithiol a bod ganddynt y cwmbras mwyaf posibl.

### *Goresgyn rhwystrau i'r sector cyhoeddus Meysydd Gweithredu 1.16 i 1.18*

Yn ein barn ni, dylai'r sector cyhoeddus ymgymryd â rôl arweiniol ac amlwg yn yr ymgyrch ehangach i wella effeithlonrwydd ynni ledled Cymru. Mae system rheoli amgylcheddol Cyfoeth Naturiol Cymru yn ardystiedig i ISO14001, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni wella ein perfformiad amgylcheddol yn barhaus gan gynnwys lleihau ein defnydd o ynni a'n hallyriadau carbon. Drwy weithio gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon rydym hefyd yng nghanol camau cynnar proses o ddod yn sefydliad carbon niwtral. Bydd hyn yn cynnwys rhaglen o leihau ein defnydd o ynni ymhellach yn ein holl swyddfeydd a chyfleoedd ar gyfer microgynhyrchu a storio carbon ar draws ystâd Cyfoeth Naturiol Cymru.

Yn unol â Maes Gweithredu 1.17 byddwn yn awyddus i arddangos prosiectau llwyddiannus a fydd yn deillio o'r broses hon.

Rydym yn croesawu'r ffocws ar effeithlonrwydd adnoddau drwy'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a nodir yn Maes Gweithredu 1.18 a gobeithio y bydd yn ein galluogi i sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian ac i gefnogi busnesau lleol wrth i ni ymgymryd â'n prosiect i ddod yn garbon niwtral.

Codi ymwybyddiaeth ynni ymhlith unigolion a newid ymddygiad personol yw un o'r heriau mwyaf wrth fynd i'r afael ag effeithlonrwydd ynni. Mae sector cyhoeddus Cymru yn gyflogwr mawr a gallai fod yn llwybr cyfathrebu cyfleus ac effeithiol i hyrwyddo effeithlonrwydd ynni yn y cartref ac yn y gymuned drwy ei gyflogeion. Byddai gwerth hefyd mewn datblygu rhaglenni ymwybyddiaeth o ynni a chyingor ar ynni a fyddai wedi'u targedu at y lefel breswyl a allai gael eu cynnal o fewn sefydliadau'r sector cyhoeddus.



**C2) Ydych chi'n cytuno â'r meysydd gweithredu a nodwyd ym mhennod 5.2: Datblygu'r gadwyn**

**gyflenwi?**

Ydyn

**C3) Ydych chi'n cytuno â'r meysydd gweithredu a nodwyd ym mhennod 5.3: Addysg a Sgiliau?**

Ydyn

**C4) Ydych chi'n cytuno â'r meysydd gweithredu a nodwyd ym mhennod 5.4: Arloesi?**

Ydyn

Rydym yn cefnogi'r farn bod gan y sector cyhoeddus yng Nghymru botensial mawr i ddatblygu a mabwysiadu datrysiadau ynni arloesol fel y nodir yn *Maes Gweithredu 4.3 Arloesi ag effeithlonrwydd ynni yn y sector cyhoeddus*. Byddwn yn ceisio datrysiadau effeithlonrwydd ynni a microgynhyrchu arloesol i'n cynorthwyo i gyflawni ein hamcanion o ddod yn sefydliad carbon niwtral.

**C5) Ydych chi'n cytuno â'r meysydd gweithredu a nodwyd ym mhennod 5.5: Cyllid?**

Cyllid?

Ydyn

Mae diffyg cyllid ar gyfer buddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni wedi ein rhwystro rhag mabwysiadu technolegau effeithlonrwydd ynni yn y gorffennol. Felly, rydym yn croesawu Meysydd Gweithredu 5.9 i 5.11 sy'n nodi'r broblem o ariannu datblygiadau effeithlonrwydd ynni o fewn y sector cyhoeddus ac sy'n mynd i'r afael a hyn.

**C6) Ydych chi'n cytuno â'r asesiadau effaith sy'n gysylltiedig â'r strategaeth ddrafft hon?**

Ydyn

**C7) Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthynol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle hwn i roi gwybod i ni amdanynt:**

Na

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn, cysylltwch â Gideon Carpenter yn gyntaf ar [Gideon.Carpenter@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:Gideon.Carpenter@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) neu ffoniwch 03000 65 3562.



**Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru**  
**Natural  
Resources  
Wales**

Yn gywir

Rhian Jardine  
Pennaeth Cymunedau Cynaliadwy